Gweiddi

# Tasg 1

(Heriol, sbardun 1)

## TASGAU SIARAD AC YSGRIFENNU

### Tasgau Trafod

1. Ydych chi'n dilyn ffasiwn person/seren/pêl-droediwr arbennig? (Gall hyn fod o ran steil dillad, gwallt, ewinedd...)
   - Ydy pawb yn credu bod hynny'n beth da?
   - Pa mor anodd yw ceisio 'torri eich cwys eich hun' a pheidio â dilyn y ffasiwn?

2. Ble rydych chi'n cael eich syniadau o ran ffasiwn?

3. Ydych chi wedi prynu rhywbeth achos ei fod yn y ffasiwn, er nad oedd yn gweddu i chi, neu'n anghyfforddus (e.e. esgidiau?)

4. Beth yw eich barn chi am gopïo syniadau pobl eraill? Ai dim ond ym myd ffasiwn y mae hynny'n digwydd?

### Tasgau Ysgrifennu

1. Dewiswch **dri gair** rydych chi'n eu hoffi o'r darn a'u defnyddio yn eich brawddegau eich hun. Tanlinellwch y gair bob tro.

   a) ...........................................................................................................................

   b) ...........................................................................................................................

   c) ...........................................................................................................................

2. Ysgrifennwch frawddegau gan ddefnyddio'r patrymau hyn. Gallwch ysgrifennu am unrhyw destun, does dim rhaid cyfeirio at gynnwys y darn:

   i) I'r cwsmer cyffredin, mae'r copïo ym myd ffasiwn yn fanteisiol iawn.

   **I ........................., mae** ....................................................................................

   ii) Os bydd seren yn gwisgo ffrog newydd..., bydd ffrogiau tebyg ar gael... mewn dim o dro.

   **Os bydd** ..............................................**bydd**...................................................................

   iii) Wrth i'r duedd fynd yn gyffredin iawn, bydd y cynllunydd gwreiddiol yn symud ymlaen i wneud rhywbeth newydd.

   **Wrth i** .........................................................**bydd**........................................................

iv) **Er bod cynllunwyr yn gwybod bod pobl yn copïo eu dillad, does dim gwahaniaeth ganddyn nhw**

**Er bod** ................................................................, **does dim**.....................................

3. Mae plant ifanc iawn yn gwisgo'n ffasiynol y dyddiau hyn. Ydy hynny'n beth da? Ysgrifennwch baragraff yn rhoi eich barn.